

BOWEN (TEULU), Llwyngwair, Sir Benfro.

Y mae aelodau teulu'r Boweniaid yn olrhain eu tras hyd at Wynfardd Dyfed (c. 1038). Tybir mai y cyntaf i arfer y cyfenw oedd EVAN BOWEN, Pentre Evan. Bu llawer o'r gwrywod yn siryfion Sir Benfro. Yr oedd JAMES BOWEN yn siryf yn 1622 ac yn byw yn Llwyngwair pan ymwelodd [Lewys Dwnn](#) â gogledd sir Benfro yn 1591; priododd ef Elenor, merch John Griffith, mab [Syr William Griffith](#), Penrhyn, Sir Gaernarfon. Rhydd [Thomas Nicholas](#) rai manylion am wahanol aelodau'r teulu yn ei *Annals of the ... County Families of Wales* (1872); gweler hefyd lyfrau cyffelyb sydd yn rhoddi achau y prif deuluoedd.

Cyfrifir GEORGE BOWEN (1722 - 1810) yn ' Ymneilltuwr Eglwysig ' oblegid ei gysylltiad â John Wesley, [David Jones](#) (Llangan), ac eraill. Mab hynaf James Bowen a'i wraig Alice, merch Robert Rowe, ydoedd George Bowen. Priododd ef Easter, merch William Thomas, Pentywyn, Sir Gaerfyrddin, a bu iddynt chwe mab a chwe merch; daeth un o'r merched, sef Anne, yn wraig y [Parch. David Griffiths](#), Nanhyfer. Aelwyd Llwyngwair oedd carreg lamu John Wesley ar ei deithiau i Iwerddon ac yn ôl. Byddai [David Jones](#) (Llan-gan) yn cyflawni llawer gorchwyl dros Bowen yn Llundain - trefnu materion ariannol a chwilio am yr ysgolion gorau i anfon plant Bowen iddynt. Bu Bowen yn siryf sir Benfro yn 1803. Cyn hynny bu'n cynorthwyo i gasglu milwyr adeg cyffro glaniad y Ffrancod yn Abergwaun (1797). Yr oedd yn feistr-tir da, a dywed [Richard Fenton](#) ac eraill mai ar ystad Llwyngwair y defnyddiwyd marl am y tro cyntaf yng ngogledd sir Benfro er achlesu'r tir; anogai Bowen ei denantiaid hefyd i gasglu gwymon; dywedir iddo ddefnyddio peiriant i falu esgyrn i'w gymysgu â'r marl a'r gwymon. Bu farw 16 Mehefin 1810 a'i gladdu yn Nanhyfer.

Bu JAMES BEVAN BOWEN (1828 - 1905) yn siryf yn 1862 ac yn aelod seneddol y sir, 1866-8. Ei fab hynaf ef oedd Syr GEORGE BOWEN (1858 - 1940). Priododd, 1882, Florence, unig ferch Frederick Corbyn, meddyg gyda'r fyddin yn India. Bu iddynt un mab - Air Commodore J. B. Bowen, Berry Hill, Trefdraeth, a phum merch. Cafodd Syr George ei addysg yn ysgol Cheltenham ac yng Ngholeg Magdalen, Rhydychen. Bu'n amlwg a gweithgar yn mywyd cyhoeddus y sir: yn siryf (1914), yn gadeirydd y cyngor sir (1927); gwnaethpwyd ef yn K.B.E. ar ôl rhyfel 1914-1918, ac yn arbennig am ei wasanaeth i amaethyddiaeth. Bu cysylltiad agos rhyngddo ac arglwyddiaeth Mars y Cemaes; yr oedd hefyd yn aelod o fwrdd llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru. Bu farw 3 Gorffennaf 1940 a chladdwyd ef yn eglwys Nanhyfer.

Awdur

Y Parchedig Rhys Lewis Griffiths, (1914 - 1984)

Ffynonellau

The journal of the Rev. John Wesley enlarged from original mss., with notes from unpublished diaries, annotations, maps, and illustrations (1938)

Dogfennau Llwyngwair yn Ll.G.C.

The Times, 5 Gorffennaf 1940

D. J. Williams, *Storiau'r Tir Glas* (Aberystwyth 1936)

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732669](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.